# Cynllun Lleihau Carbon

**Awst 2025**

**www.tinint.com**

# Cynllun Lleihau Carbon

Enw'r Asiantaeth: Tinopolis Interactive Ltd (yn masnachu fel Tinint)

Dyddiad Cyhoeddi: 12/08/2025

## 1. Ymrwymiad i Gyflawni Sero Net

Mae Tinopolis Interactive Ltd (Tinint) wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr Sero Net erbyn 2050, yn unol â thargedau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## 2. Ôl Troed Allyriadau Gwaelodlin

Mae gwaelodlin ôl-troed carbon yn gyfeirio at gofnod o'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwyd yn y gorffennol, cyn i unrhyw strategaethau i leihau allyriadau gael eu cyflwyno. Mae allyriadau gwaelodlin yn bwynt cyfeirio y gellir ei ddefnyddo i gymharu a mesur y gostyngiad mewn allyriadau.

Blwyddyn Waelodlin: 2024

Manylion Ychwanegol: Fel asiantaeth ddigidol, ein prif ffynonellau allyriadau yw'r defnydd o ynni yn y swyddfa, cymudo gan weithwyr, storio ffeiliau yn y cwmwl, teithio ar gyfer busnes, a nwyddau/gwasanaethau a brynir.

| Cwmpas | Allyriadau ($tCO_2e$) | Manylion |
|---|---|---|
| Cwmpas 1 | 0 | Dim cerbydau cwmni na defnydd uniongyrchol o danwydd |
| Cwmpas 2 | 3.5 | Trydan a ddefnyddir yn y swyddfa |
| Cwmpas 3 | 18 | Teithio ar gyfer busnes, cymudo, storio ffeiliau yn y cwmwl, gwasanaethau a brynir |
| Cyfanswm | 21.5 | — |

## 3. Adrodd ar Allyriadau Presennol

Mae ein hallyriadau presennol ar gyfer 2024 yr un fath â'n gwaelodlin:
Cyfanswm: 21.5 $tCO_2e$

## 4. Targedau Lleihau Allyriadau

Rydym yn rhagweld y bydd allyriadau carbon yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf i tua 16 $tCO_2e$ erbyn 2027 – gostyngiad o 25%.
Targedau tymor hwy: - Lleihad o 25% erbyn 2027 / - Lleihad o 50% erbyn 2029 / - Sero Net erbyn 2032

Bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn, a chaiff unrhyw ddiweddariadau eu cyhoeddi'n gyhoeddus.

## 5. Prosiectau Lleihau Carbon

Mae'r mesurau a'r prosiectau rheoli amgylcheddol canlynol wedi'u cwblhau neu'u cynllunio:

| Mesur | Cwmpas | Effaith Gwaelodlin | Camau | Amcangyfrif o'r Arbedion Blynyddol ($tCO_2e$) |
|---|---|---|---|---|
| Newid i drydan hollol adnewyddadwy | 2 | 3.5 | Symud i dariff adnewyddadwy ardystiedig | 3.5 |
| Defnyddio darparwyr carbon niwtral i storio ffeiliau yn y cwmwl | 3 | 6 | Mudo i AWS/Azure/Google Cloud sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy | 4.0 |
| Polisi teithio a lleihau teithio (yn rhithiol yn gyntaf, trên > awyren) | 3 | 4 | Lleihau nifer yr hediadau o 80%, blaenoriaethu teithio carbon isel | 3.0 |
| Effeithlonrwydd gweithio o bell | 3 | 2.5 | Darparu dyfeisiau effeithlon a chanllawiau ar ddefnyddio ynni | 0.5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymudo carbon isel | 3 | 3 | Hybu cynlluniau beicio i’r gwaith, cerbydau trydan, mentrau rhannu lifft | 1.0 |
| Gwastraff ac effeithlonrwydd yn y swyddfa | 3 | ~2 | Ailgylchu, mynd yn ddi-bapur, defnyddio offer effeithlon | 0.5 |

Cyfanswm yr Arbedion Posibl: ~12.5 $tCO_2e$ (≈gostyngiad o 60% o gymharu â’r waelodlin pan gaiff y cynllun ei weithredu’n llawn).

## 6. Datganiad a Llofnodi

Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi'i gwblhau yn unol â Nodyn Polisi Caffael (PPN) 06/21 a'r canllawiau cysylltiedig.

Mae allyriadau wedi’u cofnodi yn unol â’r safon adrodd gyhoeddedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a safon gorfforaethol Protocol Adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr ac mae’n defnyddio ffactorau trosi allyriadau priodol y Llywodraeth ar gyfer adroddiadau cwmnïau ar nwyon tŷ gwydr.

Adroddwyd ar allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 yn unol â gofynion Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon (SECR), ac adroddwyd ar yr is-set ofynnol o allyriadau Cwmpas 3 yn unol â’r safon adrodd gyhoeddedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a’r Safon Cadwyn Gwerth Corfforaethol (Cwmpas 3).

Mae’r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi’i adolygu a’i lofnodi gan y bwrdd cyfarwyddwyr.

Llofnod: ______________________

Enw: Adam Edwards

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 12/08/25